GWYBODAETH I'R DISGYBL

# Dy ganllaw i Gyfarfodydd Cynllunio Pontio Estynedig

**Mae'r broses bontio yn gyfnod o newid. Gall gadael yr ysgol a symud o un lleoliad i'r llall yn rhan o dy addysg neu hyfforddiant deimlo fel cam mawr.**

Os wyt ti, neu rywun rwyt ti'n ei adnabod, yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol i wneud y broses bontio yn haws, gall cyfarfod Pontio Estynedig gael ei drefnu i gynllunio hyn.

Bydd y cyfarfod yma'n 'Canolbwyntio ar yr Unigolyn', sy'n golygu mai ti a'r pethau sy'n bwysig i ti fydd yn cael y sylw pennaf.

RHONDDA CYNON TAF

## Beth mae pontio 'estynedig' yn ei olygu?

Mae cymorth a chyngor ar gael i bob person ifanc sy'n symud ymlaen i Addysg Bellach.

Er enghraifft, gall dy athro/athrawes ac Ymgynghorydd Gyrfaoedd ddweud rhagor wrthot ti am yr opsiynau sydd ar gael i ti a dy helpu i wneud penderfyniadau. Bydd colegau yn dy helpu i wneud cais a dechrau yn y coleg. Efallai bydd angen mwy o gymorth neu wahanol fathau o gefnogaeth ar rai pobl i sicrhau eu bod nhw'n teimlo'n hyderus, yn ddiogel ac yn hapus yn y coleg. Gall cael cynllun Pontio Estynedig dy helpu di i wneud yn siŵr bod popeth yn gweithio i ti.

## Beth os dydw i ddim yn mynd i Goleg Addysg Bellach?

Efallai y byddi di'n dewis dilyn llwybr gwahanol, fel cael hyfforddiant mewn lleoliad, dysgu yn y gwaith, cyflogaeth neu wirfoddoli. Mae cyfarfod pontio estynedig yn rhywbeth sy'n gweithio ar gyfer mynd i'r coleg. Gall lleoedd eraill wneud trefniadau gwahanol ond gallai cyfarfod i gynllunio'r broses o bontio i leoliadau eraill fod yn ddefnyddiol hefyd.

## Pwy fydd yn y cyfarfod cynllunio pontio estynedig?

- Ti. Bydd modd i ti hefyd ddod â rhywun gyda ti i dy helpu di i ddweud beth rwyt ti eisiau'i ddweud. Bydd y person yma hefyd yn gwneud yn siŵr dy fod ti'n cael dy glywed.
- Bydd dy rieni/gwarcheidwaid yn cael gwahoddiad.
- Staff yr ysgol sy'n dy adnabod di'n dda.
- Fel arfer bydd ymgynghorydd o Gyrfa Cymru yn cael gwahoddiad. Byddi di wedi cwrdd â'r ymgynghorydd yma yn barod.
- Pobl eraill a allai fod yn gweithio gyda ti y tu allan i'r ysgol ac a allai egluro i ti beth sy'n bwysig i ti (fel ymarferydd iechyd neu weithiwr cymdeithasol).
- Staff o'r Coleg Addysg Bellach (neu leoliad arall) yr wyt ti'n gobeithio mynd iddo.
- Efallai y bydd angen i rywun o dy awdurdod lleol gael ei wahodd.

## Beth os dydw i ddim eisiau dod i'r cyfarfod?

Mae'n bwysig dy fod di'n dweud beth sy'n bwysig i ti.

Efallai y byddai'n well gyda ti ymuno am ran o'r cyfarfod neu ymuno ar-lein. Bydd rhywun yn gallu rhoi copi o dy sylwadau i'r bobl yn y cyfarfod neu fe allet ti wneud fideo, paratoi PowerPoint ac ati, fel bydd y bobl yn y cyfarfod yn clywed beth sy' gyda ti i'w ddweud.

## Pryd bydd y cyfarfod cynllunio pontio estynedig?

Dylai'r cyfarfod gael ei gynnal yn ddigon buan yn ystod dy flwyddyn olaf o addysg orfodol er mwyn gwneud yn siŵr bod digon o amser i roi'r trefniadau pontio ar waith. Os oes gyda ti anghenion cymhleth, efallai bydd angen cynnal cyfarfod yn ystod y flwyddyn cynt.

Os oes gyda ti CDU (Cynllun Dysgu Unigol) neu ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), efallai bydd y cyfarfod cynllunio pontio estynedig yn cael ei gynnal yn rhan o dy gyfarfod adolygu statudol. Neu, gall fod yn gyfarfod ar wahân.

Does dim rhaid i ti fod â CDU nac Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i gael cyfarfod cynllunio pontio estynedig os yw wedi'i gytuno y byddi di'n manteisio ar gael cymorth ychwanegol.

## Beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod cynllunio pontio estynedig?

Mae'n debygol iawn dy fod di wedi dewis (neu yn agos at ddewis) y coleg yr hoffet ti fynd iddo a'r cwrs yr hoffet ti ei astudio.

Cyn y cyfarfod, dylet ti fod wedi cael cyfle i baratoi'r cwestiynau yr wyt ti eisiau eu gofyn a chael atebion iddyn nhw.

- Os mai hwn yw dy gyfarfod adolygu hefyd, byddwn ni'n dechrau drwy siarad am y cynlluniau a gafodd eu rhoi ar waith ar dy gyfer di yn y cyfarfod diwethaf (edrycha ar Dy Ganllaw i Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn am ragor o wybodaeth).

## Beth fyddwn ni'n siarad amdano yn y cyfarfod cynllunio pontio estynedig?

- Y coleg a'r cymorth estynedig sy'n wahanol i'r cymorth cyffredinol sydd ar gael a/neu'n ychwanegol ato. Er enghraifft, ymweliadau unigol â'r coleg yn ystod cyfnodau tawel; mynd i ddosbarthiadau i gael blas.
- Beth sy'n bwysig **I** ti. Er enghraifft, os wyt ti eisiau gweld rhan benodol o'r coleg; cwrdd â myfyriwr sy'n mynychu'r coleg.
- Beth sy'n bwysig **AR DY GYFER** di. Er enghraifft, os oes gyda ti anghenion iechyd y mae angen i'r coleg wybod sut i'w cefnogi.
- Sut a phryd y gall y trefniadau yma gael eu trefnu a phwy sy'n gyfrifol am wneud iddyn nhw ddigwydd.

Bydd person yn y cyfarfod yn cytuno i fod yn 'Arweinydd y cynllun pontio' a bydd yn monitro'r cynllun.

Bydd dy gynllun yn ymdrin â'r camau i'w cymryd cyn i ti adael yr ysgol a dechrau yn y coleg a'r hyn sydd angen digwydd i sicrhau dy fod yn ymgartrefu ar ôl i ti ddechrau yn y coleg.

## Pa mor hir bydd y cyfarfod?

Gall y cyfarfod bara rhwng 1 a 2 awr (gan ddibynnu p'un a yw'n gyfarfod adolygu llawn neu'n gyfarfod cynllunio pontio estynedig).

Efallai na fyddi di eisiau aros tan y diwedd. Bydd croeso i ti ddod am ran o'r cyfarfod neu ymuno ar-lein.

## Beth sy'n digwydd ar ôl y cyfarfod?

Bydd y camau gweithredu y byddwn ni'n cytuno arnyn nhw yn y cyfarfod yn cael eu cynnwys yn dy Gynllun Pontio Estynedig a bydd copi yn cael ei anfon atat ti, at bobl eraill yn y cyfarfod, ac unrhyw un arall sy'n rhan o'r trefniadau pontio.

Arweinydd y Cynllun Pontio fydd y pwynt cyswllt canolog i ti a dy deulu (ac unrhyw berson arall sy'n rhan o'r cynllun). Gelli di gysylltu â'r unigolyn os oes gyda ti unrhyw gwestiynau. Bydd yn gwirio bod y camau gweithredu rydyn ni wedi cytuno arnyn nhw yn dy alluogi i wneud cynnydd.

## Beth os dydw i ddim yn hapus neu beth os bydd pethau'n newid?

Gelli di, neu rywun rwyt ti'n ymddiried ynddo, siarad gydag Arweinydd y Cynllun Pontio i wneud yn siŵr bod dy farn a dy deimladau di yn cael eu gwneud yn glir i bawb, ac er mwyn diweddaru dy gynllun. Os oes newid sylweddol i dy amgylchiadau, gall yr Arweinydd gysylltu â'r bobl eraill er mwyn trefnu cyfarfod arall, os oes angen.